Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Garreglefn
# Garreglefn
# Amlwch
# Ynys Môn
# LL68 0PH

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymuned Carreglefn wedi ei lleoli yng Ngogledd Môn, ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Daw bron i hanner y disgyblion o'r ardal ehangach. Derbynnir plant i'r ysgol ar ddechrau'r tymor cyn eu pedwerydd pen-blwydd. Yn ystod yr arolygiad, roedd 41 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr a 5 o blant meithrin rhan amser. Maent wedi eu rhannu'n ddau ddosbarth, sef dosbarth y Cyfnod Sylfaen a dosbarth cyfnod allweddol 2.

Daw 58% o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg. Daw'r holl ddisgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig. Mae bron i 27% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 26% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n agos i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o dan ofal yr awdurdod lleol.

Pennaeth o ysgol gyfagos sy'n gweithredu fel pennaeth am gyfwerth â dau ddiwrnod a hanner yr wythnos. Mae wedi cychwyn ar y gwaith ers Medi 2015. Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Garreglefn yn 2015-2016 yw £4,795. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889. Mae Ysgol Garreglefn yn yr 17eg safle o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn yr ysgol
- Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad ac yn gwrando ar ei gilydd yn dda
- Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion gyfystyr â'u hoed a'u gallu
- Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n briodol at nifer o ddibenion ac yn arddangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gafael ar fedrau rhif sylfaenol
- Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda ac maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd ac eraill

Fodd bynnag:

- Yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, mae tueddiad ar i lawr mewn safonau cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion ar draws yr ysgol
- Ar draws yr ystod gallu, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws y cyfnod yn eu defnydd o fedrau rhifedd i resymu a datrys problemau nac wrth gasglu, cofnodi a dadansoddi data
- Nid yw'r cynllunio yn ddigon manwl a chydlynus er mwyn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn; o ganlyniad, nid oes dilyniant a pharhad yn y dysgu i ddisgyblion
- Lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflwyniadau'n rhy hir, cyflymder y gwersi'n rhy araf, ac nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus
- Nid yw defnydd athrawon o ganfyddiadau gweithdrefnau olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr i adnabod a chynllunio ar gyfer anghenion penodol grwpiau o ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar agweddau y mae angen eu gwella
- Nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon da o'i pherfformiad; o ganlyniad, nid yw aelodau'r corff llywodraethol yn gallu herio'r ysgol na gweithredu'n ddigon effeithiol fel cyfeillion beirniadol
- Nid yw aelodau'r corff llywodraethol wedi chwarae rhan yn y broses

hunanarfarnu a gwella ansawdd; nid ydynt wedi dal yr ysgol i gyfrif am y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, na sicrhau bod argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu cyflawni

- Nid yw’r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd na chynllunio yn y Cyfnod Sylfaen
- Nid oes ganddi weithdrefnau hunanarfarnu digon cadarn; o ganlyniad, nid ydynt wedi arwain at welliannau arwyddocaol na chael effaith ar safonau gwaith disgyblion
- Mae’r diffyg gweithredu ar flaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol ac argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi methu â sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol i godi safonau a gwella’r ddarpariaeth

Fodd bynnag:

- Yn ddiweddar iawn, mae’r pennaeth newydd wedi sicrhau dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau’r ysgol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac mae’n ymwybodol o’r hyn y mae’n rhaid ei wneud i godi safonau; o ganlyniad, mae wedi rhoi llawer o weithdrefnau ar waith i godi safonau dysgu ac addysgu yn ogystal â datblygu rôl y llywodraethwyr
- Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau datblygu eu rolau a deall eu cyfrifoldebau; yn ddiweddar iawn, mae'r llywodraethwyr wedi cychwyn ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau a gweld safonau gwaith disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd a rhifedd

A2 Sicrhau bod cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu i ddisgyblion

A3 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn cynnig her briodol i bob un o'r disgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Sicrhau bod trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni'r gofynion

A5 Sefydlogi trefniadau arweinyddiaeth yr ysgol

A6 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn briodol

A7 Cryfhau'r prosesau hunanarfarnu er mwyn adnabod yn well cryfderau'r ysgol a'r materion sydd angen eu gwella

A8 Sicrhau bod cynlluniau gwella'r ysgol yn arwain at welliannau mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar y cyfan, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn yn yr ysgol. Fodd bynnag, yn gyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, mae tueddiad ar i lawr mewn safonau cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion. Ar draws yr ystod gallu, nid yw lleiafrif y disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Oherwydd y diffygion yn y cynllunio o ran darparu dilyniant a pharhad clir yn y dysgu, nid yw cyflawniad ychydig o'r disgyblion cystal ag y disgwylir, o ran eu hoedran a'u cyfnod yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae'r diffygion yn y cynllunio yn golygu nad yw'r holl ddisgyblion yn derbyn yr ystod ddisgwyliedig o brofiadau dysgu yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn gallu sgwrsio'n glir gan ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Maent yn trafod profiadau a digwyddiadau yn hyderus ac yn mynegi barn syml. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ar eraill yn ofalus, gan addasu eu sgwrs yn briodol. Maent yn gofyn cwestiynau ac ymateb i safbwyntiau'r siaradwr yn fedrus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae safon darllen mwyafrif y disgyblion yn briodol i'w hoed. Maent yn darllen ar goedd gyda lefel gynyddol o gywirdeb a rhuglder. Mae'r mwyafrif yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn deall y testun yn lled gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion cyfystyr â'u hoed a'u gallu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn darllen ar goedd yn eglur ac yn defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall yr ystyr yn gywir. Mae llawer o'r disgyblon hŷn yn defnyddio eu medrau darllen mewn gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, mewn hanes a daearyddiaeth, maent yn chwilio ar y rhyngrwyd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth yn fedrus, er enghraifft drwy gip ddarllen am gynnwys bras, a llithr ddarllen am fanylion.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio atalnodi yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn gwneud ymdrech dda i sillafu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ddefnyddio ystod o ansoddeiriau perthnasol i greu effaith mewn darnau estynedig o ysgrifennu. Mae medrau ysgrifennu ym meysydd eraill y cwricwlwm yn datblygu'n briodol, er enghraifft mewn adroddiadau a gwaith ymchwil ynglŷn â'r Wylfa.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Maent yn ystyried y gynulleidfa yn llwyddiannus, gan ddewis geiriau addas, iaith ddisgrifiadol ac wrth gynnwys ffeithiau priodol i gefnogi'r darnau ysgrifennu, er enghraifft wrth

fynegi barn am rasio ceffylau. Gall mwyafrif y disgyblion gychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd gyda threfn geiriau, ymadroddion a chymalau priodol. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o atalnodi yn addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn defnyddio paragraffau yn ddigon effeithiol. Ar draws yr ysgol, nid yw cyflwyniad gwaith, na llawysgrifen ychydig o'r disgyblion, yn ddigon graenus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddefnyddio eu medrau sylfaenol rhif. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn perthynas â'u gwaith ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif ac yn defnyddio medrau mesur, fel hyd, lled, arwynebedd ac amser yn gywir. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu defnydd o fedrau rhifedd i resymu a datrys problemau nac wrth gasglu, cofnodi a dadansoddi data.

Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u targedau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn llythrennedd dros yr un cyfnod wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Mae'r perfformiad mewn datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio. Ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4), mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yn tueddu i fod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio bob blwyddyn heb batrwm amlwg.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth dros gyfnod yng nghyflawniad bechgyn a merched na rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach drwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed, ac wrth wneud ymarfer corff. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gymorth.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda. Maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, at y staff a thuag at ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu.  Maent yn canolbwyntio'n dda, ac yn gallu cydweithio ar dasg am gyfnodau priodol.  Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfle i ymgymryd â chyfrifoldebau drwy eu cyfraniad i'r cyngor ysgol, gyda llais y dysgwr yn amlwg ym mywyd yr ysgol.  Mae disgyblion wedi ailgyflwyno clwb ‘Dal i Fynd’ a datblygu cwrs rhedeg er mwyn hybu mwy o ymarfer corff yn llwyddiannus.  Maent yn trefnu digwyddiadau codi arian fel bore coffi Macmillan, sy’n annog ymwybyddiaeth ymhlith y disgyblion o bwysigrwydd helpu eraill yn y gymdeithas.

Bu gostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb disgyblion y llynedd.  Serch hynny, gan amlaf dros y pedair blynedd diwethaf, mae’r cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o’i chymharu ag ysgolion tebyg.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Anfoddhaol**

Amrywiol iawn yw ansawdd y profiadau dysgu y mae’r athrawon yn eu cynnig i’r disgyblion.  Er bod y cynlluniau gwaith ar gyfer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu profiadau dysgu amrywiol, mae ansawdd y cynllunio yn anghyson.  Nid yw’n ddigon manwl a chydlynus er mwyn sicrhau bod athrawon yn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn llawn.  Nid yw cynllunio ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen ychwaith yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion llawn y cwricwlwm.  O ganlyniad, nid oes dilyniant na pharhad yn y dysgu.  Er bod tystiolaeth o weithgareddau addysg grefyddol yn llyfrau’r disgyblion, nid oes cynlluniau addysg grefyddol yn eu lle ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Nid yw’r ysgol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.  O ganlyniad, nid yw athrawon yn medru cynllunio’n briodol ar gyfer datblygu’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm, na diwallu anghenion llawer o'r disgyblion.  Mae gwelliannau diweddar iawn wedi sicrhau mwy o ffocws ar wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r strategaethau hyn wedi eu sefydlu’n ddigon cadarn eto i gael effaith lawn ar godi safonau.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig yn addas drwy’r ysgol, gyda chyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau ar waith i sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gyffredinol briodol o faterion sy’n ymwneud â datblygu cynaliadwyedd.  Mae’r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i’r holl ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth am fywyd mewn rhannau eraill o’r byd, er enghraifft drwy weithgareddau masnach deg ac elusen ‘Omwabini’.

## Addysgu: Digonol

Mae’r athrawon a’r staff ategol yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae'r gydberthynas sy’n bodoli rhwng oedolion a disgyblion ymhob dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar yn yr ysgol. Er nad yn gyson ar draws yr ysgol, yn y mwyafrif o’r gwersi, mae athrawon yn modelu’r iaith Gymraeg yn briodol.

Mewn llawer o'r gwersi, mae'r athrawon yn atgoffa’r disgyblion o’u dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cyflwyno amcanion dysgu yn glir. Maent yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion drafod, ac yn defnyddio cwestiynau penagored i wella’u dealltwriaeth a’u helpu i ymhelaethu ar eu hatebion. Lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflwyniadau'n rhy hir, cyflymder y gwersi'n rhy araf, ac nid yw'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn ddigon llwyddiannus.

Mae rhai strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond nid ydynt bob amser yn cael eu gweithredu'n gyson nac yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig clir i ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn deall pa mor dda maent yn cyflawni a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae trefniadau cychwynnol yn eu lle i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion; mae hyn yn cychwyn magu annibyniaeth disgyblion i wella eu gwaith.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno gweithdrefnau priodol i gasglu ac arfarnu gwybodaeth o asesiadau a chanlyniadau profion safonedig ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw defnydd athrawon o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hyn yn ddigon trylwyr i adnabod anghenion disgyblion a gosod targedau digon heriol iddynt.

Mae'r staff yn llunio adroddiadau defnyddiol i rieni am gynnydd y disgyblion yn flynyddol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn cael eu meithrin i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am ei gilydd a dangos parch at eraill. Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda drwy gyfrwng gwasanaethau a chodi arian at elusennau. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae clybiau buddiol ar ôl ysgol, fel chwarae rygbi a choginio, yn addysgu’r disgyblion i gadw’n heini a pharhau i fwyta’n iach.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol. Mae swyddog o’r heddlu a nyrs ysgol yn enghreifftiau o ymwelwyr cyson i’r ysgol.

Mae’r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer adnabod a chefnogi’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r ysgol yn ymateb yn brydlon i anghenion penodol

disgyblion ac yn sicrhau darpariaeth addas ar eu cyfer drwy raglenni ymyrraeth fuddiol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cael eu llunio a'u hadolygu'n dymhorol. Serch hynny, nid yw'r rhieni yn rhan lawn o'r broses yn unol â'r gofynion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar ac hapus, sy'n annog ymddygiad da ac yn meithrin ethos gofalgar. Mae'r disgyblion yn derbyn mynediad cyfartal i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r staff yn gweithio'n dda i sicrhau cydweithrediad, gofal a pharch rhwng disgyblion ac oedolion a rhwng disgyblion a'i gilydd.

Mae safle'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarn a diogel. Mae adeiladau'r ysgol, ar y cyfan, mewn cyflwr da a gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o adnoddau a thir yr ysgol sy'n eu hannog i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Tu mewn i'r ysgol, mae'r adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd dysgu pwrpasol i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd deniadol ar waliau'r ystafelloedd yn rhoi bri ar ymdrechion disgyblion.

Mae cyflenwad addas o adnoddau cyfredol ar gyfer addysgu a dysgu, ac ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mewn cyfnod byr iawn ers ei phenodiad, mae'r pennaeth newydd wedi rhoi llawer o weithdrefnau priodol ar waith i geisio codi safonau dysgu ac addysgu, yn ogystal â datblygu rôl y llywodraethwyr. Serch hynny, nid ydynt wedi cael digon o amser i wreiddio a chael effaith arwyddocaol hyd yma.

Er bod ethos o gydweithio pwrpasol yn dechrau datblygu ymysg yr arweinwyr a gweddill y staff, nid yw hyn wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig o fywyd yr ysgol y mae angen eu gwella. Er enghraifft, oherwydd nad yw'r cynlluniau gwaith yn cael eu monitro'n briodol, nid yw'r athrawon yn ymwybodol o'r bylchau pwysig sy'n bodoli yn y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Yn yr un modd, nid yw'r arweinyddiaeth wedi sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymestyn yn llawn disgyblion o bob gallu a sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn cyflawni ar y lefelau uwch. Nid yw'r ysgol wedi cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn ddigon effeithiol, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r cynllunio bwriadus er mwyn hybu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn dechrau datblygu eu rolau a deall eu cyfrifoldebau. Yn ddiweddar iawn, maent wedi cychwyn ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau a gweld safonau gwaith disgyblion. Serch hynny, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon da o berfformiad yr ysgol hyd yma. O ganlyniad, nid yw aelodau'r corff llywodraethol yn gallu herio'r ysgol na gweithredu'n ddigon effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Nid ydynt wedi chwarae rhan yn y broses o lunio'r adroddiad hunanarfarnu na gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Nid ydynt ychwaith wedi dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, na sicrhau bod argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi eu cyflawni.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Hyd yn ddiweddar iawn, nid oes gweithdrefnau hunanarfarnu digon cadarn wedi bodoli yn yr ysgol, sydd wedi eu selio ar dystiolaeth ddibynadwy o’r addysgu a’r dysgu nac wedi ystyried barn a mewnbwn yr holl randdeiliaid. O ganlyniad, nid ydynt wedi arwain at welliannau arwyddocaol na chael effaith ar safonau gwaith disgyblion.

Mae’r diffyg gweithredu ar flaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol ag argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi methu â sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen i godi safonau a gwella’r ddarpariaeth.

Ers ei phenodi, yn ddiweddar iawn, mae’r pennaeth newydd wedi mynd ati i sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau’r ysgol. Mae wedi seilio ei chanfyddiadau ar dystiolaeth gadarn, ac mae’n ymwybodol o’r hyn y mae’n rhaid ei wneud i godi safonau. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i lunio arfarniad cywir o sefyllfa bresennol yr ysgol, yn ogystal â phennu targedau cyraeddadwy ar gyfer gwella. Mae’r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn ddogfen fanwl sy’n gwneud defnydd priodol o ddadansoddiadau data ac arfarniadau o safonau gwaith. Erbyn hyn, mae’r meysydd i’w datblygu yn cysylltu’n glir â blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol. Serch hynny, nid yw effaith y gwaith diweddar hwn i’w gweld ar gyflawniad disgyblion a pherfformiad yr ysgol hyd yma.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag ystod briodol o bartneriaethau strategol sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae partneriaeth lwyddiannus yn bodoli gyda rhieni. Maent yn gefnogol i'r ysgol ac yn cyfrannu'n dda tuag at nifer o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys codi arian sylweddol bob blwyddyn i ychwanegu at yr offer a’r cyfarpar, ac i gasglu at achosion da.

Mae’r cyswllt effeithiol sy’n bodoli gyda’r addoldy lleol yn rhoi cyfle i ddisgyblion gynnal gwasanaethau achlysurol yn y gymuned a datblygu eu medrau ysbrydol a chymdeithasol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol cadarn gydag asiantaethau allanol ac arbenigol sy’n cyfrannu at wella a hybu lles disgyblion. Er enghraifft, mae’r therapydd iaith, y meddyg ysgol, a’r seicolegydd addysg yn ymweld â’r ysgol yn ôl y gofyn i gynnig arbenigeddau gwerthfawr.

Mae’r cyswllt effeithiol gyda’r cylch meithrin, sy’n cyfarfod ar dir yr ysgol, yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd, mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda’r ysgol uwchradd leol. Mae rhaglen bontio amrywiol ac ymweliadau rheolaidd yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ddisgyblion i’r sector uwchradd.

Dros gyfnod, mae’r ysgol wedi cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau lleol i safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Serch hynny, nid yw’r athrawon yr ysgol hon bob amser yn defnyddio’r profiad hwn yn ddigon effeithiol i sicrhau bod gan bob un o’r athrawon ddealltwriaeth glir o’r safonau sy’n ddisgwyliedig gan ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg manwl ar y gyllideb ac mae'r gwariant yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau y mae'r ysgol yn eu hadnabod. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cynnal cynlluniau ymyrraeth ar gyfer disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i athrawon ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad y disgyblion.

Mae trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon ac mae pob un o'r staff yn elwa ar hyfforddiant sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau yn ddigon da bod gan bob un o'r staff eu rhan mewn rhoi unrhyw strategaethau ar waith na'u herio i'w cyflawni.

Mae'r athawon yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol drwy gydweithio rheolaidd gydag ysgolion eraill yn y clwstwr. Serch hynny, cyfyng yw effaith y cydweithio hwn ar ddealltwriaeth athrawon o'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan ddisgyblion erbyn diwedd y cyfnodau allweddol, na'u gallu i wella'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

Mae ystod amrywiol o adnoddau dysgu priodol yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602141 - Ysgol Gynradd Garreglefn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | * | 7 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | * | 71.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 7 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | * | 71.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | * | 14.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 4 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 7 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | * | 71.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | * | 28.6 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 3 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | * | 7 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | * | 100.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 83.3 | * | 57.1 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602141 - Ysgol Gynradd Garreglefn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 19.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 5 | * | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 80.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 80.0 | * | 66.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 80.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 80.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 5 | * | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 80.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 24 | 21<br>88%<br>92% | 3<br>12%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 24 | 23<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 24 | 23<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 24<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 23 | 22<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 24 | 24<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 24 | 24<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 24 | 23<br>96%<br>77% | 1<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 24 | 14<br>58%<br>84% | 10<br>42%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 16 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 16 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 16 | 8 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 50% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 16 | 8 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 44% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 16 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 8 | 6 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 38% | 12% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 7 | 6 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 47% | 40% | 13% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 20% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 16 | 10 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 6 | 6 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 43% | 14% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 14 | 7 | 4 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 29% | 21% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 16 | 9<br>56% | 6<br>38% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 16 | 8<br>50% | 6<br>38% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 16 | 8<br>50% | 8<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 7<br>58% | 4<br>33% | 1<br>8% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 9<br>56% | 7<br>44% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 16 | 7<br>44% | 9<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony John Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Annwen Elinor Wigley Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meinir Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.